Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Cyfarfod Cyhoeddus y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
30 Medi 2025 am 10:32, drwy Microsoft Teams

Yn bresennol		
Kate Young	(NE)	Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Huw David	(HD)	Cyfarwyddwr Anweithredol (yn bresennol tan 11:36)
Hefyd yn Bresennol:		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Rheolwr Archwilio, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (yn bresennol tan 12:20)
Katrina Febry	(KF)	Archwilio Cymru
Sophie Fuller	(SF)	Perfformiad a Gwella'r GIG (Rhan B)
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 9)
Ian Kent	(IK)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol Dros Dro
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd (yn bresennol o 12:15)
Angela Williams	(AW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid
Steve Wyndham	(SW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Dechreuodd y cyfarfod am 10:32		

HEB EU CADARNHAU

Rhan B	
ACGC 1/2025.09.30	**Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn electronig. Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law. **Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y byddai'r cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2025.	
ACGC 2/2025.09.30	**Datganiadau o Fuddiant**
Yn ogystal â'r datganiadau o fuddiant oedd eisoes wedi'u datgan ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant, hysbysodd MV y Pwyllgor ei fod yn Aelod o Fwrdd Chwaraeon Cymru tan 30 Medi 2025.	
ACGC 3/2025.09.30	**Perfformiad a Gwella GIG Cymru**
ACGC 3.1/2025.09.30	**Perfformiad a Gwella GIG Cymru - Adroddiad Sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**
Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Chwarterol Perfformiad a Gwella'r GIG, a oedd yn ymdrin â'r meysydd cydymffurfio canlynol: • Datblygiad y rhaglen Risg a Sicrwydd, cynhwyswyd gweithgarwch sylweddol yn y papur. • Adolygiad Archwilio Mewnol ar wariant y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Glinigol (ICST) a ddatrysodd broblem hirhoedlog yn ymwneud â chronni. • Nodwyd nad oedd gweithgarwch archwilio newydd yn ystod y cyfnod. • Cwblhawyd y trefniadau Archwilio Mewnol ar gyfer Perfformiad a Gwella'r GIG. • Cytunwyd ar gynlluniau ar gyfer hyfforddiant gwrth-dwyll pwrpasol o fewn Perfformiad a Gwella'r GIG a oedd yn mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn flaenorol. • Cydnabuwyd cydymffurfiaeth foddhaol â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a'u hyrwyddiad parhaus drwy ymsefydlu staff a chylchlythyrau. • Sefydlu Cofrestr Cytundebau newydd ar SharePoint i symleiddio cytundebau busnes. • Nodwyd bod adolygiad blynyddol o Ddatganiadau o Fuddiant wedi'i gwblhau a'i gyflwyno gyda gwaith parhaus i ddigideiddio'r broses. • Nid oedd unrhyw feysydd risg uchel i'w hadrodd i sylw'r Pwyllgor. Gofynnodd y Pwyllgor am Gynllun Datblygu Risg a Sicrwydd Perfformiad a Gwella'r GIG. Cadarnhaodd SF fod cynlluniau gweithredu ffurfiol ac amserlenni ar waith ar gyfer gwelliannau rheoli risg a chynigiodd ddod â'r Rhaglen Datblygu Risg a Sicrwydd i gyfarfod nesaf y pwyllgor. **Cam Gweithredu: SF** Trafododd y Pwyllgor y canlynol: • Y rhesymeg dros beidio â chynnwys ac atodi'r Cofrestrau llawn o Ddatganiadau Buddiant, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd i'r adroddiad, i gyd-fynd â'r	

HEB EU CADARNHAU

Adroddiadau cyfatebol a gafodd y Pwyllgor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cynghorodd LB y Pwyllgor fod y gofynion adrodd gan uned Perfformiad a Gwella'r GIG wedi'u trafod fel rhan o sefydlu'r mapio a'r amserlen ar gyfer adrodd ar sicrwydd. Rhoddwyd sicrwydd bod y Cofrestrau'n cael eu cynnal i'r safon ofynnol; fodd bynnag, nid oedd angen cyflwyno'r Cofrestrau i'r Pwyllgor. Rôl y Pwyllgor oedd sicrhau bod y Sefydliad a Letyir yn cynnal y Cofrestrau y gellid eu craffu ar gais.

- Cyflwyno Papur Sicrwydd Gwrth-dwyll i'r Pwyllgor gael sicrwydd ar ddarpariaeth gwrth-dwyll yn Perfformiad a Gwella'r GIG. Hysbysodd SF y Pwyllgor fod cynllunio'n parhau yn Perfformiad a Gwella'r GIG i ymgorffori hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gwrth-dwyll ac y byddai Adroddiad Gwrth-dwyll yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor.

Diolchodd y Pwyllgor i SF am y diweddariad.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

Rheoli Risg (Chwarterol)

- Cymryd **sicrwydd** bod proses rheoli risg effeithiol ar waith o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru.
- Cymryd **sicrwydd** bod unrhyw risg a nodwyd gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi'i huwchgyfeirio'n briodol.

Gweithgarwch Archwilio a Chaffael (Chwarterol)

- **Nodwyd** bod cynllun archwilio Perfformiad a Gwella GIG Cymru ar gyfer 2025/26 wedi'i adrodd ar wahân.
- **Nodwyd** nad oes unrhyw weithgarwch archwilio newydd wedi ei gychwyn yn ystod y cyfnod adrodd.
- **Nodwyd** bod tri methiant i gydymffurfio â safonau archwilio wedi'u hadrodd yn ystod y cyfnod.
- **Nodwyd** y datganiad cau ar gyfer anfoneb heb ei thalu gan y Sefydliad Gwyddoniaeth Glinigol a Thechnoleg (ICST).

Cydymffurfiaeth â Gofynion Gwrth-dwyll (Chwarterol)

- **Nodwyd** nad oedd unrhyw weithgarwch gwrth-dwyll wedi'i adrodd i Berfformiad a Gwella GIG Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

Cydymffurfiaeth â Gofynion Llywodraethu Gwybodaeth (Chwarterol)

- Cymryd **sicrwydd** bod Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cydymffurfio â pholisi a phrosesau Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cymryd **sicrwydd** bod unrhyw ddiffyg cydymffurfio sy'n cynrychioli risg reoleiddiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei reoli'n briodol.

Cofrestr Cytundebau Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Chwemisol)

- wedi cymryd **sicrwydd** bod cofrestr gytundebau ganolog fyw bellach ar waith ac y byddai'n cael ei chynnal, yn unol â gofynion y Fframwaith Gweithio ar y Cyd.

Datganiadau o Fuddiant (Chwemisol)

- wedi cymryd **sicrwydd** bod Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cynnal cofrestr o

HEB EU CADARNHAU

Ddatganiadau o Fuddiant deiliaid uwch swyddi perthnasol yn unol â Pholisi Safonau Ymddygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ACGC 3.3/2025.09.30	**Archwilio Mewnol yn Perfformiad a Gwella GIG Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Perfformiad a Gwella'r GIG.

Hysbysodd PD y Pwyllgor fod pedwar darn o waith wedi'u hamserlennu ar gyfer eleni; dywedodd fod un wedi'i gwblhau, a bod camau rheoli yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Roedd gweddill y gwaith ar y trywydd iawn ac yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno.

Darparwyd yr adroddiad er gwybodaeth ac ni chodwyd unrhyw faterion na phryderon.

Nododd y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Perfformiad a Gwella'r GIG.

ACGC 4/2025.09.30	**Camau dod â'r cyfarfod i ben**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 16 Rhagfyr 2025

Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a chaeodd Rhan B y cyfarfod.

HEB EU CADARNHAU

Rhan A	
ACGC 5/2025.09.30	**Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law.	
ACGC 6/2025.09.30	**Datganiadau o Fuddiant**
Yn ogystal â'r datganiadau o fuddiant oedd eisoes wedi'u datgan ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant, hysbysodd MV y Pwyllgor ei fod yn Aelod o Fwrdd Chwaraeon Cymru tan 30 Medi 2025.	
ACGC 7/2025.09.30	**Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol**
ACGC 7.1/2025.09.30	**Archwilio Mewnol**

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd ar Archwilio Mewnol.

Rhoddodd PD yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad cynnydd ar Archwilio Mewnol, a thynnodd sylw at y tri adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod. Dywedodd bod yr Adroddiadau ar Gymorth Iechyd Meddwl y Gweithlu a Rheolaeth Ariannol wedi'u gohirio er mwyn hwyluso gwaith maes a chasglu data mwy trylwyr.

Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd ar Archwilio Mewnol.

Ystyriodd y Pwyllgor dri Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol:

Cyllid sydd ddim yn Gyllid Craidd (Sicrwydd Rhesymol):
Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Gyllid sydd Ddim yn Gyllid Craidd (Sicrwydd Rhesymol). Nododd AC ei fod yn cynnwys un cam gweithredu â blaenoriaeth uchel a dau gam gweithredu â blaenoriaeth ganolig. Roedd y canfyddiad â blaenoriaeth uchel yn ymwneud â grantiau nad ydynt yn grantiau craidd nad oeddynt yn adlewyrchu chwyddiant a dyfarniadau cyflog. Yr argymhelliad i weithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu dyraniadau.

Trafododd y Pwyllgor gysylltu dyddiadau gweithredu targed â lefel risg gysylltiedig argymhellion archwilio ac a ddylid cwblhau'r camau gweithredu â blaenoriaeth uchel o fewn amserlen benodol. Cydnabu AC, wrth ysgrifennu'r Adroddiadau, nad oedd Archwilio Mewnol wedi dilyn rheolau wedi'u diffinio ymlaen llaw i bennu dyddiadau gweithredu, a'u bod wedi gweithio gydag arweinwyr rheoli i gytuno ar ddyddiad gweithredu targed realistig a dichonol. Nododd LB fod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses fewnol er mwyn darparu adolygiad a goruchwyliaeth fwy cadarn, yn enwedig lle'r oedd mwy nag un Arweinydd Gweithredol ac y byddai gwaith triongli pellach o ran dichonoldeb amserlenni yn fuddiol.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch cwestiynau yr oedd y Sefydliad yn eu gofyn wrth osod y briff ar gyfer gwaith Archwilio Mewnol, a sut y sicrhawyd bod y cwestiynau'n ychwanegu gwerth.

Trafododd y Pwyllgor sut y datblygwyd a gosodwyd y Briffiau Archwilio a sut y gellid ystyried hyn wrth ddatblygu'r cynllun drafft ac yn ystod y flwyddyn wrth gytuno ar y Briffiau Archwilio, er mwyn sicrhau bod y cwestiynau a ofynnwyd yn ychwanegu gwerth ac yn gwneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau.
Cam Gweithredu: PD a PV

HEB EU CADARNHAU

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chymryd sicrwydd o'r Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Gyllid nad yw'n Gyllid Craidd (Sicrwydd Rhesymol).

Rheoli Polisïau a Gweithdrefnau (Sicrwydd Sylweddol):

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Reoli Polisïau a Gweithdrefnau (Sicrwydd Sylweddol). Nododd AC ei fod yn cynnwys un cam gweithredu â blaenoriaeth ganolig. Nodwyd bod yr argymhelliad â blaenoriaeth ganolig yn ymwneud â gweinyddu polisïau hwyr.

Trafododd y Pwyllgor yr heriau i sicrhau bod polisïau'n cael eu hadolygu'n brydlon a'r broses ar gyfer monitro polisïau hwyr a fyddai'n cael eu hadrodd yn ddiweddarach yn yr Agenda. Esboniodd LB y broses ar gyfer diweddaru polisïau a gweithdrefnau a chynghorodd fod polisïau a gweithdrefnau sydd wedi dod i ben yn parhau i fod ar waith nes bod rhai newydd yn cael eu cymeradwyo. Nodwyd bod Uned Fusnes y Bwrdd yn rhoi cyfathrebiadau rheolaidd i Gyfarwyddiaethau ynghylch polisïau a fyddai angen eu hadolygu a'u diweddaru o fewn y 6 mis nesaf, a rhoi cefnogaeth gyda datblygu amserlenni realistig. Nodwyd, fodd bynnag, bod blaenoriaethau cystadleuol a chymhlethdod rhai o'r adolygiadau wedi effeithio ar yr amserlenni.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chymryd **sicrwydd** o'r Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Reoli Polisïau a Gweithdrefnau (Sicrwydd Sylweddol).

Codi Llais heb Ofn (Sicrwydd Rhesymol):

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Godi Llais Heb Ofn (Sicrwydd Rhesymol). Nododd AC ei fod yn cynnwys un cam gweithredu â blaenoriaeth uchel a phedwar cam gweithredu â blaenoriaeth ganolig. Yr argymhelliad â blaenoriaeth uchel oedd gwella'r broses o gofnodi a monitro amserlenni ymchwiliadau.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chymryd **sicrwydd** o'r Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Godi Llais Heb Ofn (Sicrwydd Rhesymol).

Diolchodd KY i PD ac AC am y Diweddariad a'r Adroddiadau Archwilio Mewnol terfynol a gyflwynwyd.

Egwyl	
ACGC 7.2/2025.09.30	**Archwilio Allanol**

Cyflwynodd SW a KF Adroddiad Diweddaru Archwilio Cymru a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith Archwilio Allanol:

Dywedodd SW fod cyfarfod cynllunio ar gyfer Archwiliad o Gyfrifon 2025/26 wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr. Arhosodd dyddiad cau'r Archwiliad yn ddiwedd mis Mehefin 2026, yn gyson â'r flwyddyn flaenorol oherwydd amserlenni ehangach y GIG yn bennaf. Nodwyd y byddai Archwilydd Cyffredinol newydd yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2026.

Gofynnodd y Pwyllgor a allai Archwilio Cymru ystyried dod â'r dyddiad cau ar gyfer Archwilio Cyfrifon ymlaen i gyd-fynd yn well â chynllunio a dull yr Is-adrannau Cyllid a

HEB EU CADARNHAU

welwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol. Nododd SW y cais hwn, a dywedodd y byddai'r amserlenni'n cael eu trafod gydag AW ac IK yng nghyfarfod cynllunio mis Rhagfyr.

Rhoddodd KF yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y gwaith Archwilio Perfformiad a oedd yn cynnwys gwaith heb ei wneud o flynyddoedd blaenorol:

- Roedd yr Adolygiad Trawsnewid Digidol ar y gweill,
- Roedd yr Adolygiad Llywodraethu Ansawdd wedi'i gwblhau, a
- Roedd y gwaith dilynol ar gyfer y Gwasanaethau Asesu Strwythuredig a Sgrinio ar y gweill.

Nododd y Pwyllgor y Diweddariad gan Archwilio Cymru.

Adroddiad Gwella Llywodraethu Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Gwella Llywodraethu Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymatebion y rheolwyr.

Cyflwynodd KF yr Adolygiad Gwella Llywodraethu Ansawdd, a oedd yn asesu cynnydd ar argymhellion o Adolygiad Llywodraethu Ansawdd 2022 a threfniadau'r Sefydliad ar gyfer y Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd newydd a thynnodd sylw at y canlynol:

- Roedd 19 allan o 23 o'r argymhellion blaenorol wedi cael eu gweithredu a'u cau.
- Cafodd pedwar eu disodli gan ddau argymhelliad newydd: un i asesu ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth staff â pholisïau yn well, a'r llall i fod yn fwy penodol wrth adrodd ar gamau a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Nodwyd bod y Sefydliad wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran paratoi a sefydlu trefniadau ar gyfer y Dyletswyddau Ansawdd a Didwylledd newydd.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad, gan nodi ei fod yn adlewyrchu meysydd a oedd eisoes wedi cael blaenoriaeth ac y byddai'r argymhellion yn helpu i ffurfioli fframweithiau dysgu a phrofiad.

Nododd y Pwyllgor Adroddiad Gwella Llywodraethu Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymatebion y rheolwyr.

Diolchodd KY i SW a KF am y Diweddariad gan Archwilio Cymru a'r adroddiad Adolygiad Gwella Ansawdd Llywodraethu a gyflwynwyd.

ACGC 7.3/2025.09.30	**Traciwr Argymhellion Archwilio**

Ystyriodd y Pwyllgor y Traciwr Argymhellion Archwilio a'r adroddiad a nodi fod camau gweithredu a oedd yn ymwneud â gwybodaeth sensitif i fusnes wedi'u hystyried yng Nghyfarfod Preifat cynharach y Pwyllgor.

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran cynnydd a gweithrediad y camau gweithredu rheoli sy'n codi o argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol. Nodwyd bod y Gofrestr Tracio Archwilio yn cael ei adolygu bob chwarter gan y Tîm Arwain (TA) a oedd yn gyfrifol am gau camau gweithredu, cymeradwyo estyniadau a sicrhau cynnydd o ran gweithredu. Mae'r Traciwr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn bob chwarter ar gyfer Sicrwydd.

HEB EU CADARNHAU

Cyfarfu'r Tîm Arwain ar 18 Medi a chau'r 20 cam gweithredu a restrir yn nhabl 1 a rhoi 10 estyniad i'r camau gweithredu a restrir yn nhabl 2. Roedd y rhain yn cynnwys y camau gweithredu a gafodd eu craffu yn y sesiwn Breifat.

Nododd LB hefyd fod yr Adroddiad Traciwr Archwilio wedi tyfu o ran cymhlethdod wrth iddo gael ei ddatblygu, yn cynnwys ychwanegu gwybodaeth ar gais y Pwyllgor, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dywedodd, yn dilyn adborth gan y Pwyllgor cyn y cyfarfod, ei bod wedi'i hawgrymu y byddai'r Pwyllgor yn elwa ar grynodeb lefel uwch o'r wybodaeth er mwyn gallu tynnu allan y data allweddol a'r uchafbwyntiau ar yr olwg gyntaf. Nodwyd y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei adolygu ac y byddai adroddiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Trafododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad, ac awgrymodd y dylai'r wybodaeth a ddarperir mewn adroddiadau yn y dyfodol ganolbwyntio ar gamau gweithredu sydd mewn perygl, rheiny sydd wedi mynd heibio'r dyddiad cau a'r rhai sydd mewn perygl o gyrraedd y dyddiadau cau targed/ceisiadau am estyniad. Nodwyd y byddai tabl neu grynodeb yn ei gwneud hi'n hawdd nodi'r camau gweithredu hwyr mwyaf hanfodol i dynnu sylw at risgiau sylweddol.
Cam Gweithredu: LB

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd LB sylw at dri cham gweithredu ble roedd estyniadau wedi'u rhoi i dynnu sylw'r Pwyllgor atynt:

Y Ddyletswydd Ansawdd (Cam Gweithredu 652)
Nodwyd bod y cam gweithredu hwn yn ymwneud â'r angen i adolygu Cylch Gorchwyl y Grŵp Goruchwylio Ansawdd. Rhoddodd CB y cyd-destun manwl ar gyfer yr estyniad i'r Pwyllgor, gan egluro'r angen am adolygiad mwy trylwyr o rôl a phwrpas Goruchwylio Ansawdd a oedd yn digwydd ac a fyddai'n effeithio ar Gylch Gorchwyl y Grŵp. Nodwyd bod yr amserlenni wedi'u diwygio i gyd-fynd â chwblhau'r adolygiad hwnnw.

Cynllunio'r Gweithlu (Cam Gweithredu 559)
Nodwyd bod y cam gweithredu Cynllunio'r Gweithlu yn ymwneud â datblygu pecyn cymorth gweithlu wedi cael sawl estyniad, yn sgil oedi yn ymwneud â thechnoleg ac elfennau digidol yn benodol y broses Awdurdod Digidol, Data a Dylunio. Nodwyd bod y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi cael diweddariadau rheolaidd ar Gynllunio'r Gweithlu, yn cynnwys Archwiliad Dwfn, a bod y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi cael sylw a'u gweithredu.

Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch nifer a hyd yr estyniadau ar gyfer y cam gweithredu hwn a cheisio sicrwydd pellach ynghylch effaith yr oedi hwn ar waith cynllunio gweithlu'r sefydliad. Cytunodd y Pwyllgor i anfon yr adolygiad o'r cam gweithredu hwn at y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, i archwilio'r effaith y mae'r oedi hwn wedi'i chael ar ein gallu i fwrw ymlaen â'r gwaith cynllunio'r gweithlu, a lefel yr hyder y byddai hyn yn cael ei gwblhau erbyn y dyddiad cau newydd.
Cam Gweithredu: IB / LB

Atgoffodd KF y Pwyllgor o waith gan Archwilio Cymru mewn Gwasanaethau Sgrinio a oedd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac a fyddai'n cyffwrdd ag elfennau cynllunio'r gweithlu a chapasiti o fewn Gwasanaethau Sgrinio.

HEB EU CADARNHAU

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (Cam Gweithredu 477)
Roedd y cam gweithredu hwn yn ymwneud â datblygu Cronfa Ddata Ganolog ar gyfer Rhanddeiliaid i hwyluso perthnasoedd a rennir â rhanddeiliaid allanol ac i nodi a llenwi bylchau i sicrhau bod pob sector o boblogaeth Cymru wedi'i gyrraedd. Nodwyd bod estyniad tan 31 Rhagfyr 2025 wedi'i roi.

Diolchodd KY i bawb am y diweddariadau yn ymwneud â'r camau gweithredu hyn.

Gan nodi'r thema ynghylch data ac elfennau digidol yr argymhellion a oedd wedi'u gohirio, roedd IB wedi nodi y byddai'n adolygu'r holl gamau gweithredu sy'n weddill gyda dibyniaethau digidol ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
Cam Gweithredu: IB

Ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau i'r Traciwr Archwilio fel y'u cymeradwywyd gan y Tîm Arwain ar 18 Medi 2025 a chymryd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd gyda chyflawni camau gweithredu yn deillio o Archwiliadau Mewnol ac Allanol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ACGC 8/2025.09.30	**Llywodraethu ac Atebolrwydd**
ACGC 8.1/2025.09.30	**Cofnodion Rhannau A a B 8 Mai a 24 Mehefin 2025 a'r Cofnod Gweithredu**

Ystyriodd y Pwyllgor Gofnodion Rhannau A a B y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2025 a Chofnodion Rhan A y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymeradwyo** cofnodion Rhan A a B o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2025, fel cofnod cywir o'r cyfarfod yn amodol ar gywiro'r enw Katrina Febry.
- **Cymeradwyo** cofnodion Rhan A o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2025, fel cofnod cywir o'r cyfarfod yn amodol ar gywiro'r enw Katrina Febry.
- **Cymeradwyo** cau un cam gweithredu wedi'i gwblhau ar Ran A o'r Cofnod Gweithredu.
- **Cymeradwyo** cau un cam gweithredu wedi'i gwblhau ar Ran B o'r Cofnod Gweithredu.

ACGC 8.2/2025.09.30	**Adroddiad Chwarterol Llywodraethu Gwybodaeth**

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Chwarterol ar Lywodraethu Gwybodaeth ar gyfer Chwarter 1. Cyflwynodd CB yr Adroddiad, a oedd yn cyfuno diweddariadau ar Lywodraethu Gwybodaeth, Llywodraethu Ansawdd a Rheoli Cofnodion a nododd mai dyma'r adroddiad olaf, yn ôl pob tebyg, a fyddai'n tynnu sylw at y rhaglen SharePoint, gan ei bod wedi newid i fusnes fel arfer.

Tynnodd CB sylw at nifer o bwyntiau allweddol:

- Roedd cyfarfodydd wythnosol rhwng timau Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig ac Ymchwil, Data a'r Gyfarwyddiaeth Ddigidol wedi gwella goruchwyliaeth o dor diogelwch data mewn perthynas â Rhyddid Gwybodaeth, a Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun. Nodwyd bod ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn dod yn fwy cymhleth, ac yn aml yn cynnwys nifer o bartneriaid a chyngor cyfreithiol a oedd yn cymryd mwy o amser i'w datrys.

HEB EU CADARNHAU

- Dywedwyd bod Perfformiad a Gwella'r GIG bellach yn ymuno â'r briffiau wythnosol i fynd i'r afael ag oediadau blaenorol.
- Roedd tabl yn manylu ar y Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun a gwblhawyd mewn pryd ac yn hwyr ynghyd â'r rheswm dros yr oedi. Roedd hefyd yn dangos Ceisiadau nad oeddynt wedi cael ymateb pellach ar ôl eu herio.
- Nodwyd bod ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn parhau i fod yn uwch na chanrannau disgwyliedig Llywodraeth Cymru a bod gwaith parhaus gyda pherchnogion asedau gwybodaeth yn cryfhau prosesau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data a pherchnogaeth ohono.
- Nodwyd bod y prosiect Rheoli Cofnodion wedi'i gwblhau ac roedd bellach yn rhedeg fel busnes fel arfer, gyda chefnogaeth barhaus a gwersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi. Cynghorwyd y Pwyllgor fod prosesau ar waith i fodloni gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a bod y rhaglen Rheoli Cofnodion wedi'i hymgorffori.

Gofynnodd y Pwyllgor i Adroddiadau Chwarterol yn y dyfodol gynnwys metrigau yn dangos manteision parhaus gweithredu'r Prosiect Rheoli Cofnodion. Cytunodd CB i gynnwys y rhain mewn adroddiadau yn y dyfodol.
Cam Gweithredu: CB

Awgrymodd y Pwyllgor fod y cofnod datgeliadau Rhyddid Gwybodaeth ar y wefan wedi dyddio a bod angen ei ddiweddaru. Cytunodd CB i adolygu hyn gyda'r tîm.
Cam Gweithredu: CB

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Chwarterol Llywodraethu Gwybodaeth a chymryd **sicrwydd** bod y Rhaglen i Weithredu Rheoli Cofnodion ar SharePoint wedi'i gwblhau.

ACGC 8.3/2025.09.30	**Diweddariadau Lywodraethu Chwemisol**

Ystyriodd y Pwyllgor y Diweddariadau Llywodraethu Chwemisol.

Cyflwynodd LB yr Adroddiad Llywodraethu Chwemisol a oedd yn cynnwys diweddariadau ar Ddatganiadau o Fuddiant. Trafodwyd y Gofrestr Staff yn y Sesiwn Breifat, Cylchlythyrau Iechyd Cymru, Polisïau Corfforaethol a'r Fframwaith Gweithio ar y Cyd.

Nodwyd bod y Gofrestr Fframwaith Gweithio ar y Cyd wedi cael adolygiad llawn ac fe'i hadroddwyd i'r Pwyllgor i roi sicrwydd.

Cymeradwyodd y Pwyllgor eglurder a fformat yr adran ar y Fframwaith Cydweithio.

Mewn perthynas â'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch, nododd y Pwyllgor fod y gofrestr yn nodi'r gwerth drosodd ac awgrymodd y byddai datgan gwerthoedd rhoddion unigol yn fwy tryloyw. Cytunodd IB i ymchwilio i hyn.
Cam Gweithredu: LB

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** ynghylch gweithredu'r Polisi Safonau Ymddygiad a nodi'r **Gofrestr Datganiadau Buddiant** wedi'i diweddaru a fyddai'n cael ei chyhoeddi ar y wefan yn dilyn y cyfarfod hwn.

HEB EU CADARNHAU

- Cymryd **sicrwydd** ar y gwaith o reoli'r broses o sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â **Chylchlythyrau Iechyd Cymru**.

- Cymryd **sicrwydd** ynghylch rheoli'r broses ar gyfer sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â'r **Fframwaith Cydweithio**.

- Cymryd **sicrwydd** ar y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu **polisïau a gweithdrefnau Corfforaethol** a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

ACGC 8.4/2025.09.30	**Polisïau i'w Cymeradwyo**
ACGC 8.4.1/ 2025.09.30	**Gweithdrefn Rheoli Ariannol ar gyfer Cyfrifon Derbyniadwy**

Ystyriodd y Pwyllgor y Weithdrefn Rheoli Ariannol ar gyfer Cyfrifon Derbyniadwy.

Cyflwynodd IK y Weithdrefn Rheoli Ariannol ar gyfer Cyfrifon Derbyniadwy wedi'i diweddaru a chrynhoi'r newidiadau allweddol a wnaed i'r hen weithdrefn:

- Adran newydd ar arian anhysbys ac arian a briodolwyd.
- Canllawiau ar dreth ataliedig Iwerddon.
- Twyll/llwgrwobrwyo/llygredd, a
- Thriniaeth TAW ar incwm.

Nodwyd bod ymgynghoriad â staff ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'u cynnal fel y manylwyd yn yr Adroddiad Eglurhaol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** yr wybodaeth yn y Weithdrefn a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 1a)
- **Nodi** bod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r Weithdrefn yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2025
- **Cymeradwyo'r** Weithdrefn Rheoli Ariannol ar gyfer Cyfrifon Derbyniadwy

ACGC 8.4.2/ 2025.09.30	**Gweithdrefn Rheoli Risg**

Ystyriodd y Pwyllgor y Weithdrefn Rheoli Risg.

Cyflwynodd CB y Weithdrefn Rheoli Risg wedi'i diweddaru a thynnodd sylw at yr aliniad â'r fframwaith parodrwydd i dderbyn risg diwygiedig. Nodwyd bod prosesau mwy clir ar gyfer uwchgyfeirio/isgyfeirio a bod ffeithluniau newydd wedi'u cynnwys i gynorthwyo dealltwriaeth. Eglurwyd bod y weithdrefn yn adlewyrchu aeddfedrwydd diweddar mewn Rheoli Risg ac efallai y bydd yn cael ei diwygio ymhellach pan fydd system risg electronig newydd yn cael ei rhoi ar waith.

Nodwyd bod y Polisi wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 25 Medi, a chadarnhaodd DG y byddai mân newidiadau yn dilyn adborth gan y Bwrdd yn cael eu hymgorffori yn fersiwn derfynol y Polisi.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd cyfleu'r weithdrefn yn eang ac amlinellodd DG gwaith ymgysylltu parhaus a chynlluniau ar gyfer allgymorth pellach a newid diwylliant.

HEB EU CADARNHAU

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** yr wybodaeth yn y Weithdrefn Rheoli Risg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 1a)
- **Nodi** bod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r Weithdrefn Bolisi yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2025
- **Nodi** bod y Polisi wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ar 25 Medi 2025
- **Cymeradwyo'r** weithdrefn fel y'i diwygiwyd (Atodiad1).

ACGC 9/2025.09.30	**Risg**
ACGC 9.1/2025.09.30	**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**
Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Cyflwynodd DG y diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a phwysleisiodd ei rôl o ran rhoi sicrwydd ynghylch y synergedd a'r uwchgyfeiriadau rhwng y Cofrestrau Risg Corfforaethol a Strategol. Nodwyd bod yr adroddiad yn manylu ar yr uwchgyfeiriadau cyfredol, y symudiadau a'r diweddariadau parhaus. Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheolaeth y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn y sefydliad.	
ACGC 10/2025.09.30	**Er Gwybodaeth**
ACGC 10.1/2025.09.30	**Cyllid, Caffael a Gwrth-dwyll**
Dim.	
ACGC 10.2/2025.09.30	**Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol**
Ystyriodd a **nododd** y Pwyllgor y Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2025/26 ac adroddiad diwedd blwyddyn 2024/25.	
ACGC 10.3/2025.09.30	**Rheoli Risg**
Ystyriodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol lawn er gwybodaeth a **nododd** fod y risg strategol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn (SRR6) wedi'i thrafod yn ystod y sesiwn breifat.	
ACGC 10.4/2025.09.30	**Llywodraethu ac Atebolrwydd**
ACGC 10.4.1/2025.09.30	**Cytundeb Lletya Perfformiad a Gwella GIG Cymru**
Ystyriodd a **nododd** y Pwyllgor y cysylltiadau â Chytundeb Lletya Perfformiad a Gwella GIG Cymru a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 25 Medi 2025.	
ACGC 10.4.2/2025.09.30	**Polisi Rheoli Risg**
Ystyriodd a **nododd** y Pwyllgor y Polisi Rheoli Risg a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 25 Medi 2025.	

HEB EU CADARNHAU

ACGC 10.5/2025.09.30	**Cynllun Gwaith y Pwyllgor**
Ystyriodd a **nododd** y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor.	
ACGC 11/2025.09.30	**Camau dod â'r cyfarfod i ben**
Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB. **Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:** 16 Rhagfyr 2025 **Unrhyw Fater Arall:** Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.	
Daeth y cyfarfod i ben am 12:59	

HEB EU CADARNHA